# CYFANSODDIAD CYMDEITHAS YR IAITH

Mabwysiadwyd 2006 (diweddarwyd 2011, 2012, 2013, 2016, 2019, 2020, 2021, 2022, 2023)

## 1. ENW:

Enw'r Gymdeithas fydd "Cymdeithas yr Iaith" (weithiau "Cymdeithas yr Iaith Gymraeg", neu "y Gymdeithas" yn fyr).

## 2. AMCANION NEU NOD:

Nod Cymdeithas yr Iaith yw:

a. sicrhau bod y Gymraeg yn perthyn i holl bobl Cymru a bod ganddynt yr hawl i fyw eu bywydau yn llawn drwy gyfrwng y Gymraeg; mae hyn yn cynnwys:

   1. yr hawl i addysg drwy gyfrwng y Gymraeg
   2. yr hawl i ddysgu Cymraeg
   3. yr hawl i wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob sector
   4. yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
   5. yr hawl i ofal drwy gyfrwng y Gymraeg

b. gwarchod a hybu cymunedau Cymraeg a chymunedau Cymru drwy sicrhau bod modd i bobl leol fyw a gweithio yn eu cymunedau a sicrhau dyfodol hyfyw i'r cymunedau hyn

c. sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chydnabod fel priod iaith Cymru a'i bod yn dod yn brif gyfrwng i bobl fyw eu bywydau.

## 3. DULLIAU

a. Bydd Cymdeithas yr Iaith yn ymgyrraedd at yr amcanion hyn trwy weithgareddau di-drais, wrth i aelodau'r Gymdeithas gyfarfod yn ddemocrataidd.

b. Gall y gweithgareddau yma gynnwys cydweithio gyda sefydliadau a mudiadau di-drais eraill sy'n gweithio dros heddwch, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol lle bynnag y bônt.

c. Ni fydd Cymdeithas yr Iaith yn gwahaniaethu ar sail hil, cenedligrwydd, oedran, anabledd, crefydd, rhywedd, hunaniaeth rhywedd na chyfeiriadedd rhywiol.

## 4. AELODAETH

Gall unrhyw un fod yn aelod o Gymdeithas yr Iaith sydd:

a. wedi llenwi ffurflen ymaelodi a drwy hynny datgan ei fwriad i ymuno â'r Gymdeithas

b. wedi talu'r tâl aelodaeth, fel y'i pennir gan Senedd Cymdeithas yr Iaith

c. yn fodlon hyrwyddo amcanion Cymdeithas yr Iaith

ch. yn cytuno i weithredu yn unol â chyfansoddiad Cymdeithas yr Iaith, y Côd Ymddygiad i Aelodau a'r Cyhoedd a'r Côd Ymddygiad i Wirfoddolwyr (os yn berthnasol).

## 5. DISGYBLAETH

Mae Cymdeithas yr Iaith yn cydnabod y bydd safbwyntiau ei haelodau'n amrywio'n fawr a bod angen parchu a gwrando ar farn aelodau eraill, ond mae'r Gymdeithas yn cadw'r hawl i ddiarddel unrhyw aelod nad yw'n cyflawni'r amodau aelodaeth. Bydd penderfyniad o'r fath yn cael ei wneud gan y Senedd. Mae hawl gan y Senedd i ddirprwyo'r broses ymchwilio a llunio argymhellion i swyddog neu grŵp o swyddogion eraill.

Mewn sefyllfa eithriadol er mwyn diogelu iechyd neu les aelodau'r Gymdeithas, rhwng cyfarfodydd Senedd, mae hawl, drwy gytundeb unfrydol y Cadeirydd, y Swyddog Aelodaeth a'r Is-gadeirydd Gweinyddol atal aelodaeth rhywun am gyfnod dros dro hyd at gyfarfod nesaf y Senedd. Nid oes hawl gan yr aelodau hyn ail-ddefnyddio'r pŵer eithriadol hwn mwy nag unwaith o fewn cyfnod o 6 mis, ond mae modd i'r Senedd benodi tri swyddog arall i fedru arddel y pŵer yn eu lle.

Bydd y rhesymau dros weithredu trefniadau disgyblu fel a ganlyn:

a. gweithredoedd neu ddatganiadau sy'n groes i amcanion y Gymdeithas

b. aelodaeth o fudiad sy'n mynd yn groes i amcanion y Gymdeithas

c. ymddygiad yng nghyfarfodydd neu ddigwyddiadau'r Gymdeithas sy'n fygythiol neu sy'n aflonyddu ar eraill

ch. bod gan aelodau'r Senedd reswm neu dystiolaeth eithriadol o gryf sy'n peri iddynt gredu bod risg wirioneddol bod aelod yn debygol, mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau'r Gymdeithas, o ymddwyn yn fygythiol, aflonyddu ar eraill, neu beryglu diogelwch aelodau eraill.

Bydd y cosbau isod ar gael i'r Senedd yn unol â thelerau'r Rheolau hyn:

i. ceryddu

ii. gwahardd o ddigwyddiadau a/neu gyfarfodydd y mudiad

iii. atal aelodaeth am gyfnod

iv. diarddel o'r mudiad.

Bydd gan unigolyn a waharddwyd rhag bod yn aelod o'r Gymdeithas o ganlyniad i bennu cosb ddisgyblaethol yn unol â'r rheolau hyn hawl i wneud cais i ymaelodi â'r Gymdeithas o'r newydd ddim cynt na dwy flynedd ar ôl pennu'r gosb.

Er mwyn sicrhau diogelwch pob aelod o'r Gymdeithas, mae hawl gan gadeiryddion rhanbarthau, celloedd a grwpiau ymgyrchu'r mudiad gymryd penderfyniadau gweinyddol mewn ymateb i ymddygiad aelodau sy'n peri pryder iddynt, gan gynnwys peidio â'u gwahodd i gyfarfodydd. Fodd bynnag, nid oes hawl ganddynt newid statws aelodaeth unigolyn. Dylai unrhyw gamau felly gael eu cymryd wedi i'r cadeirydd rhanbarth, cell neu grŵp gyfathrebu ac ymgynghori gyda swyddogion perthnasol y Senedd.

Bydd gan y Senedd Bolisi Urddas a Pharch i roi arweiniad i bob rhan o'r Gymdeithas o ran ymddygiad aelodau, cefnogwyr a mynychwyr digwyddiadau'r Gymdeithas ynghyd â phrosesau disgyblu yn unol â'r cyfansoddiad hwn. Bydd y polisi yn cynnwys manylion unrhyw brosesau apelio.

## 6. Y SENEDD

a. Senedd Cymdeithas yr Iaith fydd yn rheoli'r Gymdeithas rhwng Cyfarfodydd Cyffredinol o'i haelodau oddi fewn i ganllawiau polisi a osodir gan Gyfarfodydd Cyffredinol.

b. Bydd y Senedd yn cwrdd chwe gwaith y flwyddyn ond ceidw’r hawl i gynnal cyfarfodydd ychwanegol rhwng y cyfarfodydd hyn os bydd unrhyw faterion brys yn codi.

c. Yn ystod blwyddyn arferol, cynhelir Senedd Ymgyrchoedd a Rhanbarthau deirgwaith a Senedd Ymgyrchoedd a Gweinyddol deirgwaith.

ch. Bydd cyfarfodydd y Senedd yn cynnwys yr aelodau a nodir yn is-adran (ng). Dim ond yr aelodau hyn fydd â hawl i bleidleisio, er bod hawl gan unrhyw aelod i fynd i gyfarfod o'r Senedd.

d. Rhaid sicrhau cworwm o 8 o aelodau'r Senedd er mwyn i'r Senedd allu wneud penderfyniadau dilys yn ystod y cyfarfod.

dd. Aelodau’r Gymdeithas fydd yn gyfrifol am ethol aelodau i wasanaethu ar y Senedd am gyfnod o flwyddyn. Mae gan bob aelod o’r Gymdeithas hawl i enwebu unrhyw aelod arall ar gyfer unrhyw swydd drwy lenwi’r ffurflen enwebiadau a fydd yn cael ei hanfon at sylw’r holl aelodau yn y cyfnod yn arwain at y Cyfarfod Cyffredinol.

e. Gan fod staff cyflogedig eisoes yn aelodau llawn o'r Senedd ac yn atebol iddi, ni allent dderbyn rôl arall arni. Os yw aelod o'r Senedd yn derbyn swydd cyflogedig gyda’r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, gofynnir iddynt gamu i lawr o'r swydd wirfoddol. Bydd gan y Senedd hawl i gyfethol unrhyw aelod o’r Gymdeithas i'r swydd wag honno hyd y Cyfarfod Cyffredinol nesaf.

f. Mae gan bob aelod o’r Gymdeithas hawl i bleidleisio dros unrhyw aelod arall sydd wedi derbyn enwebiad ar gyfer unrhyw swydd, trwy bleidlais gudd yn y Cyfarfod Cyffredinol, gyda phleidleisiau o bell ar gael ar gais i aelodau na allant fod yn bresennol yn y Cyfarfod Cyffredinol.

ff. Bydd y swyddogion etholedig yn cael eu henwi yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol. Gall unrhyw swyddi gwag gael eu llenwi trwy bleidlais yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol.

g. Gan y Cyfarfod Cyffredinol y mae'r hawl i ychwanegu, dileu neu newid natur unrhyw swydd ar y Senedd. Os oes sefyllfa yn codi lle mae’n rhaid creu swydd newydd ar y Senedd rhwng dau Gyfarfod Cyffredinol, mae hawl gan Senedd y Gymdeithas i wneud hynny, ond rhaid cadarnhau unrhyw benderfyniad o’r fath yn y Cyfarfod Cyffredinol dilynol.

ng. Os bydd un o’r swyddi a etholwyd gan y Cyfarfod Cyffredinol yn dod yn wag yn ystod y flwyddyn, mae gan y Senedd hawl i gyfethol unrhyw aelod o’r Gymdeithas i wasanaethu hyd y Cyfarfod Cyffredinol nesaf. Mae deiliaid y swyddi canlynol fel y’u hetholwyd gan aelodau Cymdeithas yr Iaith yn aelodau llawn o’r Senedd:

- Cadeirydd Cenedlaethol, a fydd yn gyfrifol am reoli'r Gymdeithas rhwng cyfarfodydd y Senedd
- Is-gadeirydd Cyfathrebu, a fydd yn gyfrifol am gydlynu gwaith cyfathrebu'r Gymdeithas
- Is-gadeirydd Gweinyddol, a fydd yn gyfrifol am ein gweinyddiaeth
- Is-gadeirydd Ymgyrchoedd, a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y grwpiau ymgyrchu'n weithredol
- Trysorydd, a fydd yn gyfrifol am faterion ariannol y Gymdeithas
- Golygydd y Tafod, a fydd yn gyfrifol am drefnu a golygu cylchgrawn y

Gymdeithas

- Swyddog Codi Arian a Mentrau Masnachol, a fydd yn gyfrifol am weithgarwch codi arian, gan gynnwys nwyddau
- Swyddog Cyswllt Colegau, a fydd yn gyfrifol am ddenu pobl ifanc 16+ at waith y Gymdeithas
- Swyddog Diwylliant, a fydd yn gyfrifol am hyrwyddo ymgyrchu trwy ddulliau creadigol
- Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol, a fydd yn gyfrifol am ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol
- Swyddog Dylunio, a fydd yn gyfrifol am drefnu gwaith dylunio'r Gymdeithas, gan gynnwys y Tafod
- Swyddog Dysgwyr, a fydd yn gyfrifol am drefnu darpariaeth i bobl ddysgu’r iaith
- Swyddog Rhyngwladol, a fydd yn datblygu ein perthynas gydag ymgyrchwyr iaith eraill
- Cadeirydd y Grŵp Addysg
- Is-gadeirydd y Grŵp Addysg
- Cadeirydd y Grŵp Cymunedau Cynaliadwy
- Is-gadeirydd y Grŵp Cymunedau Cynaliadwy
- Cadeirydd y Grŵp Dyfodol Digidol
- Is-gadeirydd y Grŵp Dyfodol Digidol.
- Cadeirydd y Grŵp Hawl i’r Gymraeg
- Is-gadeirydd y Grŵp Hawl i’r Gymraeg
- Cadeirydd y Grŵp Iechyd a Lles.

Bydd Swyddog Aelodaeth hefyd yn cael ei ethol, yn gyfrifol am hyrwyddo aelodaeth a thynnu aelodau mewn i weithgarwch y Gymdeithas, ond ni fydd yn aelod o’r Senedd.

h. Os na all Cadeirydd neu Is-gadeirydd unrhyw grŵp ymgyrchu fod yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Senedd, dylai’r grŵp ddewis cynrychiolydd arall i’w gynrychioli ac i bleidleisio ar ei ran.

i. Bydd Cadeirydd pob rhanbarth, wedi’u hethol gan eu rhanbarthau, hefyd yn aelodau llawn o’r Senedd gyda’r un hawl i bleidleisio. Os na all Cadeirydd y rhanbarth fod yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Senedd, dylai’r rhanbarth ddewis cynrychiolydd arall i’w gynrychioli ac i bleidleisio ar ei ran.

j. Bydd holl swyddogion cyflogedig y Gymdeithas yn aelodau llawn o’r Senedd yn ddiofyn. Y Senedd fydd yn penodi swyddogion cyflogedig.

## 7. LLOFNODI CYTUNDEBAU, GWEITHREDOEDD A DOGFENNAU ERAILL

Mae gan unrhyw aelod neu aelodau o’r Senedd yr awdurdod i lofnodi a/neu i wneud mewn unrhyw ffordd arall unrhyw gytundeb, unrhyw weithred ac unrhyw ddogfen arall dros ac ar ran aelodau’r Gymdeithas (neu i awdurdodi unrhyw aelod neu aelodau o unrhyw gell y Gymdeithas i lofnodi a/neu i wneud mewn unrhyw ffordd arall unrhyw gytundeb ac

unrhyw ddogfen arall, ac eithrio gweithred, dros ac ar ran aelodau'r Gymdeithas) ar yr amod bod y cytundeb (ac eithrio unrhyw gytundeb yswiriant), y weithred neu'r ddogfen arall yn cynnwys y cymal canlynol: *"Bydd atebolrwydd aelodau Cymdeithas yr Iaith o dan [y cytundeb hwn/y weithred hon/y ddogfen hon] yn gyfyngedig i werth asedau caffaeladwy Cymdeithas yr Iaith, ac ni fydd atebolrwydd unrhyw aelod yn un personol"*.

## 8. DIGOLLEDIAD

**8.1 Digolledu (er budd aelodau a chyn-aelodau'r Senedd):** Mae gan bob aelod (a chyn-aelod) o'r Senedd yr hawl i gael ei ddigolledu neu'i digolledu o asedau'r Gymdeithas ynglŷn ag unrhyw rwymedigaeth y mae e neu hi'n mynd neu wedi mynd iddi trwy lofnodi neu wneud mewn unrhyw ffordd arall (neu awdurdodi unrhyw aelod o unrhyw gell y Gymdeithas i lofnodi neu i wneud mewn unrhyw ffordd arall) unrhyw gytundeb, unrhyw weithred neu unrhyw ddogfen arall yn unol â chymal 7 i'r graddau nad yw'r fath ddigolledIad yn waharddedig neu'n ddirym o dan y gyfraith.

**8.2 Digolledu (cytundebau) (er budd pob aelod a chyn-aelod o'r Gymdeithas):** Mae gan bob aelod (a chyn-aelod) o'r Gymdeithas yr hawl i gael ei ddigolledu neu'i digolledu o asedau'r Gymdeithas ynglŷn ag unrhyw rwymedigaeth y mae e neu hi'n mynd neu wedi mynd iddi o ganlyniad i unrhyw gytundeb neu unrhyw weithred sydd yn cael ei wneud neu'i gwneud neu sydd wedi cael ei wneud neu'i gwneud dros a/neu ar ran aelodau'r Gymdeithas i'r graddau nad yw'r fath ddigolledIad yn waharddedig neu'n ddirym o dan y gyfraith.

**8.3 Digolledu (camweddau) (er budd pob aelod a chyn-aelod o'r Gymdeithas):** Mae gan bob aelod (a chyn-aelod) o'r Gymdeithas yr hawl i gael ei ddigolledu neu'i digolledu o asedau'r Gymdeithas:

a. ynglŷn ag unrhyw rwymedigaeth sydd yn cael ei gosod ar yr aelod (neu'r cyn-aelod) o dan sylw; a/neu

b. ynglŷn ag unrhyw gost y mae'n rhaid i'r aelod (neu'r cyn-aelod) o dan sylw fynd iddi;

o ganlyniad (naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i unrhyw gamwedd a fydd yn cael ei gyflawni neu sydd wedi'i gyflawni gan unrhyw aelod (neu gyn-aelod) arall o'r Gymdeithas i'r graddau nad yw'r fath ddigolledIad yn waharddedig neu'n ddirym o dan y gyfraith.

## 9. RHANBARTHAU

a. O safbwynt y Gymdeithas, mae Cymru wedi ei rannu yn chwe rhanbarth sef Gwynedd-Môn, Clwyd, Ceredigion, Caerfyrddin-Penfro, Powys a Morgannwg-Gwent.

b. Gall celloedd neu unigolion sefydlu 'Cyfarfod Rhanbarth' gyda chydsyniad y Senedd. Un pwyllgor swyddogol fydd yng ngofal unrhyw ranbarth. Gwaith y rhanbarth yw cydlynu gwaith y celloedd o fewn y rhanbarth a bod yn ddolen gyswllt rhwng y Senedd a'r celloedd. Yn ddelfrydol dylai fod Swyddog Maes cyflogedig yn gwasanaethu'r rhanbarth (neu grŵp o ranbarthau) ar ran y Gymdeithas. Bydd Cadeirydd y rhanbarth, a etholir yn ystod cyfarfod cyffredinol y rhanbarth, neu ei gynrychiolydd yn aelod o Senedd Cymdeithas yr Iaith. Neilltuir tair Senedd bob blwyddyn i drafod materion rhanbarthol.

c. Y Senedd hefyd fydd yn rheoleiddio ffiniau a chyfansoddiad rhanbarthau.

## 10. CELLOEDD (YSGOL/COLEG/ARDAL)

a. Gwasanaethir Cymdeithas yr Iaith ar lefel leol/gymunedol gan gelloedd. Mae gan y gell hawl i ethol ei swyddogion ei hun a hawl i weithredu yn unol ag egwyddorion a pholisïau Cymdeithas yr Iaith.

b. Mae gan Senedd Cymdeithas yr Iaith hawl i ddiarddel unrhyw gell o'r mudiad (ac wedi ymgynghoriad â'r swyddogion rhanbarth perthnasol) os tybir bod y gell wedi canymddwyn, dwyn anfri ar y Gymdeithas neu weithredu'n groes i egwyddorion y Gymdeithas. Dylid rhoi rhybudd swyddogol i gell cyn ei diarddel.

c. Bydd pob cell yn anfon cynrychiolydd i'r cyfarfod rhanbarth.

## 11. Y CYFARFOD CYFFREDINOL

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Cymdeithas yr Iaith unwaith y flwyddyn fel arfer ym mis Hydref. Gellir galw Cyfarfod Cyffredinol arbennig yn ychwanegol at y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol os yw 'r Senedd, dau ranbarth, pum cell, neu ddeugain aelod cyffredin yn gwneud cais am hyn.

**Rheolau Sefydlog y Cyfarfod Cyffredinol**

**Paratoadau**

a. Bydd gan bob aelod o Gymdeithas yr Iaith hawl i fynd i Gyfarfodydd Cyffredinol. Caniateir i'r wasg a sylwebyddion fod yn bresennol oni bai fod mwyafrif syml o'r aelodau yn penderfynu'n groes i hynny.

b. Penderfynir ar amserlen y Cyfarfod Cyffredinol ac ar drefn y cynigion a materion trefnyddol eraill gan y Pwyllgor Llywio a gyfansoddir fel a ganlyn: y Cadeirydd, Is-gadeiryddion, Swyddogion Cyflogedig.

c. Trefn arferol y Cyfarfod Cyffredinol fydd cynnal cyfarfod busnes ar y cychwyn (gyda chynigion trwy'r dull trafod a phleidleisio) ac yna, i ddilyn, cyfarfod mwy agored (gyda chynigion trwy'r dull consenswS).

ch. Disgwylir i Gadeiryddion y Grwpiau Ymgyrchu a'r Rhanbarthau gyflwyno adroddiadau blynyddol ysgrifenedig am eu gwaith a chynllun ar gyfer y flwyddyn i ddod, o flaen llaw ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol.

**Cynigion a chynigion brys**

d. (i) Rhaid i gynigion fod yn llaw yr Ysgrifennydd Cyffredinol ar ddyddiad ac amser i'w penodi gan y Senedd.

(ii) Yn dilyn trafodaeth gyda'r cynigydd, y Pwyllgor Llywio fydd yn penderfynu pa gynigion a drafodir fel rhan o'r cyfarfod busnes a pha rai trwy drafodaeth a chonsensws yn unol â chanllawiau'r Senedd. Bydd gofyn i'r Pwyllgor Llywio adrodd yn ôl i'r Senedd, gan gynnwys rhesymau dros wrthod unrhyw gynigion.

(iii) Derbynnir cynigion brys rhwng dyddiad cau derbyn cynigion arferol a 5.30 ar y dydd Llun cyn y cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol. Bydd gan y Pwyllgor Llywio ddisgresiwn i dderbyn cynnig brys rhwng yr amser hwn a 5.30 ar y dydd Gwener cyn y Cyfarfod Cyffredinol. Rhaid i gynnig brys ymwneud â mater o sylwedd sydd wedi codi ers dyddiad cau derbyn cynigion arferol.

(iv) Derbynnir gwelliannau ar unrhyw gynnig rhwng dyddiad cau derbyn cynigion arferol a 5.30 ar y dydd Llun cyn y cynhelir y Cyfarfod

Cyffredinol. Gall gwelliant fod yn gymal sy'n cynnig gwell eglurder, neu'n cwmpasu pwyntiau perthnasol ychwanegol.

(v) Y Pwyllgor Llywio fydd yn penderfynu pa gynigion brys a/neu gwelliannau a dderbynnir.

(vi) Os derbynnir gwelliant fe'i cyflwynir i'r cynigydd. Gall y cynigydd dderbyn unrhyw welliant os dymuna, ac os felly, y cynnig diwygiedig fydd yn sefyll. Os na fydd y cynigydd yn derbyn unrhyw welliant, dilynir camau ng(i) a (ii).

dd. (i) Rhaid sicrhau cynigydd ac eilydd i bob cynnig.

(ii) Os na fydd y cynigydd a'r eilydd a enwir yn y cynnig yn bresennol, ni thrafodir y cynnig na gwelliant heb ganiatâd y Cyfarfod Cyffedinol.

(iii) Ni ellir tynnu cynnig na gwelliant yn ôl heb ganiatâd y Cyfarfod Cyffedinol.

**Y cyfarfod busnes (cynigion trwy'r dull pleidleisio)**

e. Gweithredir Rheolau Sefydlog y Cyfarfod Cyffredinol ar ddisgresiwn y Cadeirydd er mwyn hwyluso trafodaeth.

f. Gyda mwyafrif syml o'r Cyfarfod gellir gollwng y Rheolau Sefydlog ar gyfer cynnig penodol. Yn syml, gall aelod gynnig ac un arall eilio i ollwng y Rheolau ac yna symudir i bleidlais ar ollwng y Rheolau Sefydlog yn syth.

ff. Bydd y cynigydd yn cyflwyno'r cynnig (ac yn siarad dros y cynnig). Bydd yr eilydd wedyn yn eilio (ac yn siarad dros y cynnig os dymunir).

g. Ar ôl y cynnig a'r eilio bydd y Cadeirydd yn datgan bod y cynnig gerbron y Cyfarfod, a dylai unrhyw aelod sy'n dymuno siarad geisio tynnu sylw'r Cadeirydd trwy godi llaw.

ng. **Gwelliannau**

(i) Os nad yw cynigydd y cynnig gwreiddiol yn derbyn gwelliant, bydd y cyfarfod yn mynd ymlaen i drafod y gwelliant. Rhaid cael eilydd i'r gwelliant, ac yna bydd cyfle i siarad dros ac yn erbyn y gwelliant cyn symud at bleidlais.

(ii) Os bydd y gwelliant yn cael ei basio, y cynnig diwygiedig fydd yn sefyll.

(iii) Mewn sefyllfaoedd eithriadol, os dymunir cynnig gwelliannau pellach ar y cynnig **yn ystod y Cyfarfod**, gellir penderfynu gollwng y Rheolau Sefydlog fel y nodir ym mhwynt e. a chynnal trafodaeth er mwyn cyrraedd at benderfyniad trwy gonsenws.

h. **Trafod cynigion, gwelliannau neu gynigion diwygiedig**

(i) Mewn trafodaeth ar unrhyw gynnig neu cynnig diwygiedig, bydd y Cadeirydd yn sicrhau cyfle teg i unrhyw rai sy'n dymuno cyfrannu ac, yn ogystal, yn sicrhau bod y drafodaeth yn berthnasol.

(ii) Bydd y Cadeirydd yn defnyddio ei ddisgresiwn i gyfyngu ar amser unrhyw drafodaeth.

(iii) Os dymuna'r Cadeirydd siarad ar unrhyw gynnig, yna rhaid iddynt adael y gadair. Cymerir ei lle gan gadeirydd arall am weddill y drafodaeth ar y pwnc.

(iv) Gall y cynigydd (y cynnig gwreiddiol neu'r cynnig diwygiedig) grynhoi ar y

diwedd os yw'n dymuno.

(v) Yn ystod trafodaeth ar gynnig, gwelliant neu gynnig diwygiedig gall unrhyw aelod sy'n bresennol gynnig un o'r canlynol:

- gadael y cynnig ar y bwrdd. Yn yr achos hwn, bydd y drafodaeth ar y cynnig yn cael ei gohirio nes y Cyfarfod Cyffredinol nesaf (os dymuna'r cynigydd a'r eilydd ei ail gynnig bryd hynny)
- cyfeirio'r cynnig yn ôl i'r Senedd.

(vi) Gall unrhyw aelod sy'n bresennol, dynnu sylw'r Cadeirydd er mwyn:

- gofyn cwestiwn neu ofyn am eglurhâd o unrhyw sylwadau a wnaed
- cywiro'r gadair neu siaradwr arall
- codi pwynt o drefn (yn ymwneud yn unig â threfn y cyfarfod); bydd penderfyniad y Cadeirydd ar unrhyw bwynt o drefn yn derfynol onibai bod dau draean o'r aelodau sy'n bresennol yn pleidleisio dros gynnig i herio penderfyniad y Cadeirydd ar unrhyw fater
- cynnig pleidlais o ddiffyg hyder yn y Cadeirydd fel cadeirydd y cyfarfod. Bydd y Cadeirydd yn trosglwyddo'r gadair i gadeirydd arall yn ystod y drafodaeth ar y cynnig hwn. Rhaid i ddau draean o'r aelodau sy'n bresennol bleidleisio dros y cynnig hwn. Os yw'r cynnig yn pasio, bydd aelod arall yn cadeirio am weddill y cyfarfod.

i. **Pleidleisio**

(i) Dim ond aelodau o Gymdeithas yr Iaith (h.y. y rhai sy'n dal cerdyn pleidleisio) all bleidleisio yn y cyfarfod.

(ii) Bydd pob pleidlais drwy ddangos cerdyn pleidleisio. Ni chaniateir i neb bleidleisio dros eraill.

(iii) Pleidlais fwrw'n unig fydd gan y Cadeirydd.

**Y cyfarfod agored (cynigion trwy'r dull consensws)**

j. Nod y sesiwn yma fydd trafod cynigion a chyrraedd penderfyniad trwy gonsensws.

(i) Mewn trafodaeth, bydd y Cadeirydd yn sicrhau cyfle teg i unrhyw rai sy'n dymuno cyfrannu ac, yn ogystal, yn sicrhau bod y drafodaeth yn berthnasol.

(ii) Os na ellir cyrraedd penderfyniad trwy gonsensws o fewn amserlen rhesymol, yna symudir i bleidlais syml (fel y nodir ym mhwynt h. uchod).

(iii) Bydd y Cadeirydd yn defnyddio eu disgresiwn i gyfyngu ar amser unrhyw drafodaeth a symud i bleidlais.

**12. CYFRIF BANC**

Y Trysorydd sydd yn gyfrifol am gyfrif banc y Gymdeithas. Bydd cerdyn banc ynghlwm â'r cyfrif banc ar gyfer defnydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol. Rhoddir awdurdod i'r Ysgrifennydd Cyffredinol ddefnyddio'r cerdyn i dalu am nwyddau neu wasanaethau angenrheidiol hyd at swm a bennir gan y Senedd.

**13. EIDDO’R GYMDEITHAS**

13.1 Mae’r diffiniadau a’r dehongliadau canlynol yn berthnasol yn y cymal 13 hwn:

a. Mae **Aelodau Cyfredol** yn golygu holl aelodau’r Gymdeithas am y tro (ac mae **Aelod Cyfredol** yn golygu unrhyw un ohonyn nhw).

b. Mae **Aelodau’r Senedd** yn golygu aelodau Senedd y Gymdeithas am y tro (ac mae **Aelod o’r Senedd** yn golygu unrhyw un ohonyn nhw).

c. Mae **Eiddo Personol y Gymdeithas** yn golygu:

(i) asedau diriaethol (megis dodrefn a cheir); ac

(ii) asedau annirweddol (megis arian; budd hawlfraint, nodau masnach a/neu ddyluniadau cofrestredig a/neu unrhyw eiddo deallusol arall; budd unrhyw drwydded i ddefnyddio unrhyw eiddo deallusol; budd cyfamodau; budd ymrwymiadau cytundebol eraill; a budd hawliau eraill o unrhyw fath);

sydd wedi’u rhoi naill ai i’r Gymdeithas neu i’w holl aelodau am y tro, neu a fydd yn cael eu rhoi naill ai i’r Gymdeithas neu i’w holl aelodau am y tro, neu sydd wedi dod i feddiant y Gymdeithas neu ei holl aelodau am y tro, neu a fydd yn dod i feddiant y Gymdeithas neu ei holl aelodau am y tro.

ch. Mae **Eiddo Tiriog y Gymdeithas** yn golygu eiddo tiriog (gan gynnwys eiddo rhyddfraint ac eiddo ar brydles) sydd wedi’i roi naill ai i’r Gymdeithas neu i’w holl aelodau am y tro, neu a fydd yn cael ei roi i’r Gymdeithas neu i’w holl aelodau am y tro neu sydd wedi dod i feddiant y Gymdeithas neu ei holl aelodau am y tro, neu a fydd yn dod i feddiant y Gymdeithas neu ei holl aelodau am y tro.

d. Mae **Eiddo’r Gymdeithas** yn golygu holl eiddo’r Gymdeithas am y tro, gan gynnwys:

(i) Eiddo Personol y Gymdeithas; ac

(ii) Eiddo Tiriog y Gymdeithas.

dd. Mae **Eiddo Ymddiriedolaeth** yn golygu unrhyw ased neu eiddo sydd am y tro:

(i) yn rhan o Eiddo’r Gymdeithas; ac

(ii) yn cael ei ddal gan Ymddiriedolwyr Perthnasol ar ymddiriedolaeth er budd yr Aelodau Cyfredol yn unol â’r Cyfansoddiad hwn gan gynnwys y cymal 13 hwn.

e. Mae **Eiddo Arall** yn golygu unrhyw ased neu eiddo:

(i) sydd yn rhan o Eiddo’r Gymdeithas; ond

(ii) nad yw’n cael ei ddal gan Ymddiriedolwyr Perthnasol ar ymddiriedolaeth er budd yr Aelodau Cyfredol yn unol â’r Cyfansoddiad hwn gan gynnwys y cymal 13 hwn;

am y tro.

f. Mae **Ymddiriedolwyr Perthnasol** yn golygu unrhyw ymddiriedolwyr sydd yn dal unrhyw Eiddo Ymddiriedolaeth ar ymddiriedolaeth er budd yr Aelodau Cyfredol yn unol â’r Cyfansoddiad hwn gan gynnwys y cymal 13 hwn (ac mae **Ymddiriedolwr Perthnasol** yn golygu unrhyw un ohonyn nhw).

ff. Mae **Ymddiriedolaeth Berthnasol** yn golygu unrhyw ymddiriedolaeth y mae unrhyw Eiddo Ymddiriedolaeth yn cael ei ddal arni er budd yr Aelodau Cyfredol yn unol â’r Cyfansoddiad hwn gan gynnwys y cymal 13 hwn.

g. Yn achos unrhyw Ymddiriedolaeth Berthnasol, mae **Cyfnod yr Ymddiriedolaeth** yn golygu naill ai:

(i) y cyfnod bythol-barhad sydd yn perthyn i’r Ymddiriedolaeth Berthnasol honno, sef y cyfnod rhwng dyddiad sefydlu’r Ymddiriedolaeth Berthnasol honno a’r diwrnod cyn pen-blwydd cant a phum mlynedd ar hugain y dyddiad hwnnw (fel y’i osodwyd gan adran 5 (1) Deddf Bythol-barhadau a Chroniadau 2009); neu

(ii) (os bydd yn fyrrach) y cyfnod rhwng dyddiad sefydlu’r Ymddiriedolaeth Berthnasol honno a dyddiad diddymu’r Gymdeithas.

h. Bydd unrhyw eiriau sydd yn dilyn y termau **gan gynnwys**, **megis**, **yn arbennig**, **er enghraifft** neu unrhyw ymadrodd tebyg yn cael eu dehongli fel enghreifftiol, ac ni fyddan nhw'n cyfyngu ar ystyr unrhyw eiriau, disgrifiad, diffiniad, ymadrodd neu derm sydd yn rhagflaenu’r termau neu’r ymadroddion hynny.

13.2 Mae’r Aelodau Cyfredol yn cydnabod eu bod nhw a/neu y byddan nhw’n berchen ar Eiddo’r Gymdeithas ar y cyd ar y sail gytundebol, ganlynol yn unol â dyfarniad Barnwr Cross (ynglŷn ag eiddo ac asedau cymdeithasau anghorfforedig) yn achos *Neville Estates Ltd yn erbyn Madden (1962) Ch 832*: hynny yw, mae a/neu fydd Eiddo’r Gymdeithas yn perthyn i’r Aelodau Cyfredol nid fel cyd-denantiaid, ond yn hytrach yn unol â’u hawliau a’u hymrwymiadau tuag at ei gilydd fel aelodau’r Gymdeithas, sydd yn golygu na chaiff unrhyw Aelod Cyfredol ddatgysylltu ei gyfran a fydd (yn hytrach) yn dod i’r Aelodau Cyfredol eraill ar ôl iddo neu iddi farw neu ar ôl i’w aelodaeth neu i’w haelodaeth ddod i ben, er gwaetha’r ffaith y bydd yr Aelodau Cyfredol eraill hynny’n cynnwys personau a ddaeth neu a fydd yn dod yn aelodau o’r Gymdeithas ar ôl i’r ased perthnasol neu’r eiddo perthnasol ddod yn rhan o Eiddo’r Gymdeithas (ond os bydd y Gymdeithas yn cael ei diddymu, cytunir y bydd y rhai Aelodau Cyfredol sydd yn fyw ar ddiwrnod y diddymu â hawl i Eiddo’r Gymdeithas yn llwyr mewn rhannau cyfartal).

13.3 Mae’r Aelodau Cyfredol yn awdurdodi Aelodau’r Senedd i wneud y pethau canlynol ar eu rhan nhw ynglŷn ag Eiddo Personol y Gymdeithas (y **Gweithredoedd Perthnasol**):

a. talu unrhyw dreuliau a/neu gostau’r Gymdeithas (gan gynnwys cyflogau a threthi) o unrhyw arian sydd yn rhan o Eiddo Personol y Gymdeithas am

y tro;

b. gorfodi budd unrhyw hawlfraint a nodau masnach a/neu ddyluniadau cofrestredig a/neu unrhyw eiddo deallusol arall; budd unrhyw drwydded i ddefnyddio unrhyw eiddo deallusol; budd unrhyw gyfamodau; budd unrhyw ymrwymiadau cytundebol eraill; a budd unrhyw hawliau eraill o unrhyw fath sydd yn rhan o Eiddo Personol y Gymdeithas am y tro mewn unrhyw ffordd (gan gynnwys trwy ddwyn achos neu achosion cyfreithiol yn erbyn unrhyw drydydd parti neu drydydd partïon) a thalu'r gost o wneud hynny o unrhyw arian sydd yn rhan o Eiddo Personol y Gymdeithas am y tro;

c. rheoli a gwerthu a/neu brydlesu a/neu drwyddedu (gan gynnwys fel gweithred) a/neu gofrestru a/neu wneud unrhyw gytundeb a/neu gais ynglŷn ag unrhyw ased sydd yn rhan o Eiddo Personol y Gymdeithas am y tro;

ch. trosglwyddo neu aseinio (gan gynnwys fel gweithred) unrhyw ased sydd yn rhan o Eiddo Personol y Gymdeithas am y tro i rwng dau a phedwar o Aelodau'r Senedd ac i'w penodi nhw'n ymddiriedolwyr i ddal yr ased hwnnw ar ymddiriedolaeth er budd yr Aelodau Cyfredol yn unol â'r Cyfansoddiad hwn gan gynnwys y cymal 13 hwn;

d. gwneud unrhyw beth arall gydag a/neu ynglŷn ag Eiddo Personol y Gymdeithas fel y mae Aelodau'r Senedd yn gweld orau i'r graddau bod hynny:

   (i) yn atodol i a/neu'n anorfod ar unrhyw un o'r Gweithredoedd Perthnasol wedi'u rhestru uchod yn y cymal 13.3 hwn; a/neu

   (ii) yn atodol i a/neu'n anorfod ar anelu at nod y Gymdeithas a/neu ddilyn amcanion y Gymdeithas wedi'u crynhoi yng nghymal 2 y Cyfansoddiad hwn;

ac mae gan bob Aelod o'r Senedd (a chyn-Aelod o'r Senedd) yr hawl i gael ei ddigolledu neu'i digolledu o asedau'r Gymdeithas ynglŷn ag unrhyw rwymedigaeth y mae e neu hi'n mynd neu wedi mynd iddi o ganlyniad i'r ffaith bod unrhyw un o'r Gweithredoedd Perthnasol wedi'i gwneud i'r graddau nad yw'r fath ddigollediad yn waharddedig neu'n ddirym o dan y gyfraith.

13.4 Mae'r Aelodau Cyfredol yn awdurdodi rhwng dau a phedwar o Aelodau'r Senedd:

a. i wneud cais a/neu geisiadau (yn eu henwau eu hunain fel ymddiriedolwyr) i gofrestru nod masnach a/neu ddyluniad cofrestredig ar sail:

   (i) unrhyw eiddo deallusol; a/neu

   (ii) unrhyw drwydded i ddefnyddio unrhyw eiddo deallusol;

sydd yn rhan o Eiddo Personol y Gymdeithas; ac

b. ar ôl i unrhyw nod masnach a/neu ddyluniad cofrestredig gael ei roi o

ganlyniad i unrhyw gais o'r fath i ddal y nod masnach a/neu'r dyluniad cofrestredig hwnnw ar ymddiriedolaeth er budd yr Aelodau Cyfredol yn unol â'r Cyfansoddiad hwn gan gynnwys y cymal 13 hwn.

13.5 Mae'r Aelodau Cyfredol:

a. yn awdurdodi dau Aelod o'r Senedd:

(i) i drosglwyddo (fel gweithred) unrhyw Eiddo Tiriog y Gymdeithas (yr **Eiddo Tiriog Trosglwyddedig**) i rwng dau a phedwar o Aelodau'r Senedd (y **Trosglwyddedigion**); ac

(ii) i benodi'r Trosglwyddedigion yn ymddiriedolwyr (**Ymddiriedolwyr Eiddo Tiriog**) i ddal yr Eiddo Tiriog Trosglwyddedig ar ymddiriedolaeth er budd yr Aelodau Cyfredol yn unol â'r Cyfansoddiad hwn gan gynnwys y cymal 13 hwn; ac

b. yn cytuno mai'r geiriad safonol canlynol wedi'i gyhoeddi gan Gofrestrfa Tir EF sydd yn disgrifio sut mae'r Ymddiriedolwyr Eiddo Tiriog i fod i ddal unrhyw Eiddo Tiriog Trosglwyddedig: "*Ar ymddiried i aelodau (cymdeithasiad anghorfforedig) i ddelio ag ef yn unol â'i reolau.*"

13.6 Bydd gan unrhyw Ymddiriedolwyr Perthnasol y pwerau canlynol (y **Pwerau Perthnasol**):

a. Y pŵer i wneud unrhyw fuddsoddiad gydag unrhyw ased neu eiddo y mae'r Ymddiriedolwyr Perthnasol yn ei ddal ar ymddiriedolaeth er budd yr Aelodau Cyfredol yn unol â'r Cyfansoddiad hwn gan gynnwys y cymal 13 hwn (**Ased Ymddiriedolaeth Perthnasol**) y gallen nhw ei wneud pe baen nhw'n berchen ar yr Ased Ymddiriedolaeth Perthnasol hwnnw'n llwyr.

b. Y pŵer i reoli ac i werthu a/neu brydlesu a/neu drwyddedu (gan gynnwys fel gweithred) a/neu i gofrestru a/neu i wneud unrhyw gytundeb a/neu gais ynglŷn ag unrhyw Ased Ymddiriedolaeth Perthnasol fel pe bai'r Ymddiriedolwyr Perthnasol yn berchen ar yr Ased Ymddiriedolaeth Perthnasol hwnnw'n llwyr.

c. Y pŵer i yswirio unrhyw Ased Ymddiriedolaeth Perthnasol ar unrhyw lefel o ddiogelwch a/neu sicrwydd ac i dalu premiymau yswiriant o gyfalaf a/neu o incwm unrhyw Ased Ymddiriedolaeth Perthnasol.

ch. Y pŵer i wella a/neu ddatblygu eiddo rhyddfraint a/neu eiddo ar brydles sydd yn Ased Ymddiriedolaeth Perthnasol am y tro (ac ni fydd yn rhaid i'r Ymddiriedolwyr Perthnasol gydymffurfio â rheolau statudol sydd yn mynnu i gost gyfalafol gwelliannau gael ei hadennill o incwm).

d. Y pŵer i fenthyca arian a/neu asedau eraill i unrhyw ddiben (gan gynnwys er mwyn cael gafael ar asedau).

dd. Y pŵer i fasnachu yn unrhyw le yn y byd naill ai ar eu pennau ei hunain neu gydag eraill.

e. Y pŵer i dalu unrhyw dreuliau a/neu gostau'r Gymdeithas (gan gynnwys cyflogau a threthi) o gyfalaf a/neu incwm unrhyw Ased Ymddiriedolaeth

Perthnasol.

f. Y pŵer i awdurdodi unrhyw aelod arall o Senedd y Gymdeithas am y tro i wneud dyletswyddau'r Ymddiriedolwyr Perthnasol ar eu rhan.

ff. Y pŵer i roi indemniad i unrhyw berson (gan gynnwys unrhyw un o'r cyn-Ymddiriedolwyr Perthnasol).

g. Y pŵer i forgeisio unrhyw Ased Ymddiriedolaeth Perthnasol er mwyn gwarantu unrhyw ymrwymiad y mae'r Ymddiriedolwyr Perthnasol yn mynd iddo yn rhinwedd eu swyddi fel ymddiriedolwyr.

h. Y pŵer i orfodi budd unrhyw hawlfraint a/neu nod masnach a/neu ddyluniad cofrestredig a/neu unrhyw eiddo deallusol arall; budd unrhyw drwydded i ddefnyddio unrhyw eiddo deallusol; budd unrhyw gyfamodau; budd unrhyw ymrwymiadau cytundebol eraill; a budd unrhyw hawliau eraill o unrhyw fath sydd yn rhan o Eiddo Personol y Gymdeithas mewn unrhyw ffordd (gan gynnwys trwy ddwyn achos neu achosion cyfreithiol yn erbyn unrhyw drydydd parti neu drydydd partïon) ac i dalu'r gost o wneud hynny o gyfalaf a/neu o incwm unrhyw Ased Ymddiriedolaeth Perthnasol.

i. Y pŵer i wneud unrhyw beth sydd yn atodol i a/neu'n anorfod ar unrhyw un o weddill y Pŵerau Perthnasol.

13.7 Wrth i'r Ymddiriedolwyr Perthnasol arfer y Pŵerau Perthnasol, bydd yn rhaid:

a. iddyn nhw ymgyngori â gweddill Aelodau'r Senedd; ac

b. iddyn nhw weithredu'n unol â phenderfyniadau mwyafrif Aelodau'r Senedd;

ond bydd gan bob Ymddiriedolwr Perthnasol (a chyn- Ymddiriedolwr Perthnasol) yr hawl i gael ei ddigolledu neu'i digolledu o asedau'r Gymdeithas ynglŷn ag unrhyw rwymedigaeth y mae e neu hi'n mynd neu wedi mynd iddi o ganlyniad i'r ffaith bod unrhyw un o'r Pwerau Perthnasol wedi'i arfer i'r graddau nad yw'r fath ddigollediad yn waharddedig neu'n ddirym o dan y gyfraith.

13.8 Yn atodol i gymalau 13.4 ac 13.5 y Cyfansoddiad hwn, bydd gan Aelodau'r Senedd ar y cyd:

a. y pwerau o dan adran 36 Deddf Ymddiriedolwr 1925 i benodi ymddiriedolwyr eraill (yn Ymddiriedolwr Perthnasol); ac

b. y pŵer ychwanegol i benodi ymddiriedolwyr eraill (yn Ymddiriedolwr Perthnasol) os bydd unrhyw Ymddiriedolwr Perthnasol yn peidio â bod yn Aelod o'r Senedd.

13.9 Mae'r amodau canlynol yn berthnasol i'r Ymddiriedolwyr Perthnasol:-

a. Ni chaniateir i lai na dau na mwy na phedwar o bobl am y tro fod yn Ymddiriedolwyr Perthnasol.

b. Ni chaniateir i unrhyw un nad yw'n Aelod o'r Senedd fod neu'n aros yn Ymddiriedolwr Perthnasol.

c. Mae'n rhaid i unrhyw berson sydd yn cael ei benodi neu'i phenodi'n Ymddiriedolwr Perthnasol lofnodi (fel gweithred) ddatganiad ymddiriedolaeth mewn ffurf wedi'i gosod gan Aelodau'r Senedd i'r perwyl y bydd y person hwnnw'n dal yr Eiddo Ymddiriedolaeth perthnasol ar ymddiriedolaeth er budd yr Aelodau Cyfredol yn unol â'r Cyfansoddiad hwn gan gynnwys y cymal 13 hwn.

13.10 Mae'r amodau canlynol yn berthnasol i bob Ymddiriedolaeth Berthnasol:

a. Er y bydd yr Ymddiriedolwyr Perthnasol yn dal yr Eiddo Ymddiriedolaeth berthnasol ar ymddiriedolaeth er budd yr Aelodau Cyfredol yn ystod Cyfnod yr Ymddiriedolaeth, bydd yn rhaid i'r Ymddiriedolwyr Perthnasol ddal yr Eiddo Ymddiriedolaeth berthnasol er budd y rhai Aelodau Cyfredol sydd yn fyw ar ddiwedd Cyfnod yr Ymddiriedolaeth yn llwyr mewn rhannau cyfartal.

b. Bydd yr Ymddiriedolaeth Berthnasol i'w llywodraethu gan a'i dehongli yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr, ac fe fydd hi'n ddarostyngedig i awdurdod neilltuedig llysoedd Cymru a Lloegr.

13.11 Er mwyn osgoi amheuaeth, i'r graddau:

a. bod unrhyw beth y mae Aelodau'r Senedd (neu unrhyw Aelod o'r Senedd) yn ei wneud yn unol ag unrhyw awdurdod o dan y cymal 13 hwn yn cynnwys llofnodi (neu wneud mewn unrhyw ffordd arall) unrhyw gytundeb neu weithred neu ddogfen arall dros ac ar ran aelodau'r Gymdeithas; ac

b. nad yw'r aelod hwnnw neu'r aelodau hynny o'r Senedd yn gweithredu fel ymddiriedolwr neu ymddiriedolwyr yn unol â'r Cyfansoddiad hwn gan gynnwys y cymal 13 hwn;

bydd yr awdurdod perthnasol yn amodol ar gymal 7 y Cyfansoddiad hwn.

## 14. NEWID Y CYFANSODDIAD

Ni cheir newid y Cyfansoddiad hwn ond trwy bleidlais yr aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio yn y Cyfarfod Cyffredinol.

## 15. DEHONGLIAD

Os digwydd bod unrhyw gwestiwn yn codi ynglŷn â dehongliad y Cyfansoddiad, bydd cadeirydd y cyfarfod (neu rhwng cyfarfodydd, Cadeirydd y Gymdeithas) yn dyfarnu ar y mater a bydd ei d/ddyfarniad yn derfynol oni bai bod cynnig yn cael ei basio yn gofyn i'r person symud o'r Gadair. Adroddir am unrhyw ddyfarniad o'r fath i'r Senedd, a fydd yn argymell gweithredu i ddileu unrhyw amwysedd.